Atodiad 2: Amcanion Cydraddoldeb Strategol Amgueddfa Cymru 2021/2022

Amcan 1 **Mae Amgueddfa Cymru yn datblygu gweithlu a thîm o wirfoddolwyr sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn well.**	**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**	**A yw Cymru'n Decach?**	**Cenedlaethau'r Dyfodol**
1.1 Sefydlu gwaelodlin i'n proffil amrywiaeth, achrediadau a datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y dyfodol. 1.2 Datblygu'r broses recriwtio a dethol er mwyn ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn ein diwylliant, a sicrhau y cânt eu hadlewyrchu yn ein dogfennau ategol megis Disgrifiadau Swyddi a rolau gwirfoddolwyr, gwefannau a pholisïau. 1.3 Treialu cyfleoedd am leoliadau, cicdanio a phrentisiaethau i gynyddu amrywiaeth yn y gweithle, a mesur effaith hyn ar ein proffil amrywiaeth. 1.4 Dechrau gwaith cwmpasu ar gyfer amcanion, projectau, ymchwil a mentrau yn y dyfodol i gefnogi datblygu amcanion Amrywiaeth a Chynhwysiant y dyfodol. 1.5 Datblygu a chynnal hyfforddiant arweinyddiaeth i sicrhau arweinyddiaeth dosturiol sy'n cefnogi diwylliant cynhwysol. 1.6 Ceisio dylanwadu'r broses recriwtio Ymddiriedolwyr er mwyn helpu i gynyddu amrywiaeth yn y pwll ymgeiswyr, a datblygu proses gynefino i Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau caiff y diwylliant o amrywiaeth a chynhwysiant ei fewnosod yn ein ffyrdd o weithio.	7 8	Argymhellion 1 2 3 4 5 6 17 18 20 21	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Amcan 2 **Cefnogi ein holl staff a gwirfoddolwyr i gyflawni eu potensial a'u huchelgais proffesiynol a chael gwared â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni hyn.**	**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**	**A yw Cymru'n Decach?**	**Cenedlaethau'r Dyfodol**
2.1 Dechrau asesiadau sgiliau ar gyfer meysydd allweddol a nodi anghenion hyfforddiant a datblygu ar gyfer y dyfodol. 2.2 Cyflawni Strategaeth Hyfforddiant sy'n cynnwys cyfleoedd am hyfforddiant digidol a ffisegol i staff a gwirfoddolwyr, sy'n gynhwysol ac sy'n annog, ysgogi ac yn cefnogi staff a gwirfoddolwyr i ddatblygu. 2.3 Darparu cyfleoedd i bobl ifanc a Chynhyrchwyr Amgueddfa Cymru i gyfrannu at bolisïau a datblygu gweithdrefnau a chyflawni rhaglenni cyhoeddus. 2.4 Ymgysylltu â staff BAME, anabl ac LHDTQ+ er mwyn deall y rhwystrau sy'n gysylltiedig â datblygiad gyrfa, a helpu llywio gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol a chael gwared â rhwystrau. 2.5 Archwilio gyda rhwydweithiau gwirfoddolwyr sut allwn ni eu cefnogi, er mwyn rhoi'r llais a'r gefnogaeth briodol iddyn nhw. 2.6 Adeiladu ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu o weithio yn ystod pandemig COVID-19 er mwyn cefnogi iechyd a lles staff a gwirfoddolwyr, ac archwilio ymhellach y cyfleoedd am fynediad i ddatblygiad o bell, a sut allwn ni drefnu hyn yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer cyfrifoldebau gofal a chartref.	3 8	Argymhellion 1 2 3 5 6 7 8 20 21	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Amcan 3 Cynyddu'r amrywiaeth o bobl sy'n ymweld ag Amgueddfa Cymru, yn cyfranogi ac yn defnyddio ein gwasanaethau.	**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**	**A yw Cymru'n Decach?**	**Cenedlaethau'r Dyfodol**
3.1 Datblygu ffyrdd o atal rhwystrau i ymweld, cyfranogi a defnyddio ein gwasanaethau drwy ymgysylltu ag amrywiaeth o gymunedau dros Gymru. 3.2 Datblygu arweinyddiaeth a phrotocolau i sicrhau y caiff holl ddeunyddiau marchnata a chyfarwyddiadau safle a gynhyrchir yn y dyfodol eu hadolygu at ddibenion hygyrchedd ac amrywiaeth. 3.3 Sefydlu mecanwaith sy'n galluogi Grwpiau Gweithredu Anabledd i gyfrannu at gyngor ar safonau hygyrchedd, a chynnig cyngor parhaol ar faterion hygyrchedd. 3.4 Sefydlu mecanwaith sy'n galluogi sefydliadau celf sy'n ymwneud ag anabledd megis Disability Arts Cymru i ddylanwadu ar ein rhaglen, er enghraifft drwy grwpiau gorchwyl a gorffen. 3.5 Gwneud gwasanaethau digidol mor hygyrch â phosib i'r rheiny y mae ymweld â'n safleoedd yn ffisegol yn heriol. 3.6 Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff o'r Model Cymdeithasol o Anabledd a'r rheiny sy'n profi anghydraddoldeb o ganlyniad i fyw mewn tlodi. 3.7 Cydweithio â phartneriaid cymunedol i wneud ymweliadau ag amgueddfeydd yn fwy atyniadol i bobl o gefndiroedd amrywiol, er enghraifft drwy'r grŵp ymgynghori Mae Bywydau Du o Bwys, Stonewall a sefydliadau cynrychioliadol eraill. 3.8 Parhau i adolygu pob cyhoeddiad newydd i sicrhau bod ein negeseuon yn gynhwysol ac yn cynnwys pob maes cydraddoldeb. 3.9 Cynnal archwiliad ar broffil demograffig ein hymwelwyr.	3 7 8	Argymhellion 1 2 3 4 5	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Amcan 4 **Byddwn yn anelu i ddefnyddio dull sy'n gyfrifol yn gymdeithasol wrth fynd ati i brynu nwyddau, gwasanaethau ac adnoddau a sicrhau fod yr holl gaffaeliadau yn cael eu gwneud yn unol ag ymrwymiadau a wnaed yn y Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.** **Byddwn yn ceisio datblygu a hyrwyddo cadwyni cyflenwi effeithiol, lleol a chynaliadwy.**	**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**	**A yw Cymru'n Decach?**	**Cenedlaethau'r Dyfodol**
4.1 Sicrhau ein bod yn cynnwys canlyniadau cymdeithasol yn ein gweithdrefnau caffael lle bod modd ennill gwerth cymdeithasol. 4.2 Creu cynllun gweithredu blynyddol sy'n cysylltu caffael yn y dyfodol â materion cymdeithasol. 4.3 Adolygu cyfleoedd i hyrwyddo ein harfer wrth ennill gwerth cymdeithasol wrth ddewis cyflenwyr. 4.4 Sicrhau bod gweithdrefnau caffael yn agored i bawb, gan gynyddu gwerth cymdeithasol yr hyn sy'n cael ei gyflawni a darparu cyfleoedd i bawb.	3	Argymhellion 1 2 26	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru iachach Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Amcan 5 **Rydym yn cydnabod ein rôl unigryw wrth ddarparu cyfleoedd i ddangos cyfoeth diwylliant amrywiol y genedl drwy'r celfyddydau.**	**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**	**A yw Cymru'n Decach?**	**Cenedlaethau'r Dyfodol**
5.1 Cynnal archwiliad o waith a gomisiynir gyda dadansoddiad o gyfansoddiad demograffig y cyfranwyr. 5.2 Datblygu mentrau gweithredu cadarnhaol i fynd i'r afael â bylchau wrth gyfrannu a nodwyd yn yr archwiliad. 5.3 Datblygu mecanwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i annog comisiynau gan unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a sicrhau y caiff y rhain eu hymgorffori yn ein prif raglenni. 5.4 Sicrhau y caiff rhaglenni cyhoeddus sydd wedi'u targedu at gynulleidfaoedd penodol a ddatblygwyd gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol eu prif-ffrydio, ac nad ydynt yn ddigwyddiadau unigol sy'n dathlu diwrnodau rhyngwladol neu ddigwyddiadau crefyddol, gan sicrhau y caiff cyllideb ac adnoddau eu neilltuo. 5.5 Darparu data ar ddemograffig pobl a gomisiynwyd ar gyfer gwaith, yn rhan o waith adrodd blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.	6 7 8	Argymhellion 1 2 8	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Amcan 6 **Sicrhau trefniadau arwain a llywodraethu strategol, gan sicrhau fod y safon yn uchel ac yn gyson ar draws pob ardal o'n cyfrifoldeb.**	**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**	**A yw Cymru'n Decach?**	**Cenedlaethau'r Dyfodol**
6.1 Monitro perfformiad amcanion y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb drwy Dîm Arwain yr Amgueddfa. 6.2 Adrodd ar ddemograffig ein staff yn flynyddol, gan nodi beth sydd wedi gweithio'n dda a meysydd sy'n peri pryder a sut allwn ni eu gwella. 6.3 Creu grwpiau rhwydwaith priodol i gefnogi materion sy'n benodol i gydraddoldeb, e.e. Gofalwyr, i ystyried datblygu polisïau ar gyfer materion cydraddoldeb penodol. 6.4 Sicrhau bod gwybodaeth ar ein gwefan ar y pynciau canlynol: • Adroddiad am fwlch cyflog rhwng y rhywiau • Ein proses Asesu'r Effaith o Gydraddoldeb • Ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'n Cynllun Gweithredu • Yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol • Ein mentrau gweithredu cadarnhaol • Gwybodaeth am sefydliadau partner sy'n cefnogi ein mentrau cydraddoldeb • Mesurau gweithredu cadarnhaol wrth gomisiynu gwaith. Gwybodaeth ar gaffael a phrif-ffrydio cydraddoldeb. 6.5 Cynnal adolygiad blynyddol o weithdrefnau caffael er mwyn asesu prif-ffrydio cydraddoldeb. 6.6 Cynnal adolygiad o'n hyfforddiant staff a gynhaliwyd dros y 2 flynedd diwethaf i asesu a yw'r hyfforddiant hwn wedi bodloni'r ymrwymiadau a wnaed yn Amcan Cydraddoldeb 2, a sut mae wedi'u bodloni. 6.7 Hyrwyddo ein hachrediadau i sicrhau y cawn ein cydnabod fel sefydliad sy'n esiampl, sy'n gynhwysol ac yn ymwybodol o gydraddoldeb fel cyflogwr, ac fel sefydliad sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr.	6 7 8	Argymhellion 1 2 9 17 18 20 21 22	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Amcan 7 **Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.**	**Amcanion Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru**	**A yw Cymru'n Decach?**	**Cenedlaethau'r Dyfodol**
7.1 Cynnal adolygiad o'r Adroddiad ar fwlch cyflog rhwng y rhywiau i nodi'r rhesymau dros unrhyw fylchau cyflog ar draws data cyflog rhwng y rhywiau. 7.2 Cynhyrchu cynllun gweithredu o fesuriadau er mwyn gweithio tuag at ddileu unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan gynnwys denu, recriwtio a chadw unigolion er mwyn cynyddu amrywiaeth ar bob lefel. 7.3 Cynnal hyfforddiant pellach ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'i ymgorffori mewn unrhyw brosesau newid / proses cynyddu tâl i sicrhau nad yw cynigion yn rhoi grwpiau a warchodir o dan anfantais, gan gynnwys y rheiny sy'n profi anghydraddoldeb oherwydd tlodi neu gontractau oriau amrywiol. 7.4 Adrodd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ar ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau.	2 3 4 8	Argymhellion 1 2 3 17 20 21 22	Cymru lewyrchus Cymru sy'n fwy cyfartal Cymru o gymunedau cydlynus